Amser Dyn – CA5

Tasg 1: Cymeriadau

Cymeriadau

Rhannau y Byr-olygfeydd

Cyn i chi ddarllen y ddrama, craffwch ar restr 'Y Cymeriadau' a rhestr 'Rhannau y Byr-olygfeydd'.

Wrth wneud, ystyriwch gwestiynau fel:

- Pa fath o gymeriadau rydych chi'n eu gweld o flaen eich llygaid wrth ddarllen y rhestrau?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Mrs Williams a Jean Bradshaw, tybed?
- Pa fath o gymeriad yw 'Gwraig y Weledigaeth'?
- Beth yw arwyddocâd yr oedrannau a nodir weithiau?
- Beth yn fras yw'r gwahaniaeth rhwng natur 'Y Cymeriadau' a natur 'Rhannau y Byr-olygfeydd'

Nodwch ansoddair neu ddau y tybiwch chi sy'n addas i bob cymeriad, neu efallai yr hoffech chi wneud braslun â phensil o rai ohonynt.

Wedi darllen y ddrama, dewch yn ôl at y rhestr hon i ganfod i ba raddau roedd eich rhagdybiaethau chi'n gywir.

- Pa ansoddeiriau y byddech chi'n eu defnyddio bellach?
- Pa fath o fraslun y byddech chi'n ei dynnu?